Cyfres Llanbedr | Mehefin, 1926. | Cyf. 26. Rhif 6.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
RHWNG DAU GYFNOD.
BECA.
SUSPENS.
GYLCH Y FORD FACH.
CYMANFA GANU SIR FORGANWG
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl
a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.
Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-. ; *Drwy'r Post*, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

.. Yr Ymofynnydd. ..

Cyfres Llanbedr. MEHEFIN, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 6.

NODION Y GOLYGYDD.

NID ar fyr yr anghofir naw diwrnod du'r Streic Gyffredin na'r naw mis cyn hynny ychwaith. Parlyswyd bywyd masnach y wlad megis ar amrantiad. Ni fwriadaf i olrhain yr achos. Ni cheisiaf farnu na chondemnio. Gwnaeth ond odid eglwysi'r wlad y cyfan y medrid yn resymol ddisgwyl oddiwrthynt ond yn ofer. Naturiol yw synfyfyrio ar y methiant, methiant pob pŵer i atal y *Streic*. Sonnir llawer yn ein dyddiau ni am Gynghrair y Cenhedloedd i rwystro rhyfeloedd rhwng y gwledydd.

Y Streic. Dywedir mai'r ffordd oreu i gael y stryd yn lân yw trwy i bobun ysgubo o flaen ei ddrws ei hun. Nid wyf yn sicr ychwaith nad oedd rhywbeth yn chwerthinllyd yn y peth, cenedl sydd a'i chalon, meddir, gyda'r Cynghrair yn methu penderfynu'i phroblemau'i hun heb streic neu ryfel ym myd masnach. Nid ymddengys yr enillir ymddiried y glowr drwy droi i lawr adroddaid pob comisiwn fel y gwnaethpwyd ag eiddo Sankey ac fel y mae perigl y gwneir ag eiddo Samuel. Beth bynnag a feddylir am yr adroddiadau hyn, goreu po gyntaf y sylweddolir mai'r hawl gyntaf ar y glofeydd yw cyflog byw y glowr. Rhagor na hynyna, y mae bywyd masnach y byd fel crochan yn berwi ac ni wyddys y foment y berwa trosto. Y mae ysbryd drwgdybus yn awyrgylch y lofa, ac fel yr awgryma'r Athro L. P. Jacks yn ei Sialens Bywyd i Lafur "penderfynir nodweddion moesol y gweithiwr gan ansawdd ei waith." Rhaid gwybod am yr amcan o'r tu ol ac am y ddelfryd, ac oni cheir "gwirionedd, prydferthwch a daioni" ym myd masnach, ofer chwilio am danynt yng nghymeriad y gweithiwr ychwaith. Nid rhywbeth ar yr wyneb mo'r *Streic*. Y mae'n mynd tan fywyd masnach y wlad; y mae i'w theimlo'n yr awyrgylch; y mae fel haint. Ni wyddys pryd na phle y tyr allan ychwaith a hyd nes ceir ysbryd newydd a safonau newydd ni ellir disgwyl dim ond *Streic*.

* * *

Naturiol troi o fyd y streic at streic arall, Cyfundeb ac ysgolion Sul yn mynd ar streic rhag defnyddio Llawlyfr y Parch. D. J. Evans, B.A., B.D., Capel Seion ar "*Brif Gymeriadau'r Hen Destament.*" Gesyd y Pab ac Eglwys Rhufain ambell lyfr ar "yr Index" ac awgrymir fod pob awdur yn ddiolchgar am yr hysbysiad rhad.

Prif Gymeriadau'r Hen Destament.

Ni chredaf y gwna'r Streic hon nemor niwed i'r awdur oni ddolurir ei galon o weled rhywrai'n mynnu cau allan y gwirionedd. Nid oedd y berw am lyfr Y Parch. D. Francis Roberts, B.A., B.D., wedi tawelu ond odid cyn ail drwblu'r dwr gan y llyfr hwn. Y mae'r awdur yn ddigon gonest i addef yn ei Ragair; "Nid oes dim newydd yn nysgeidiaeth y llyfr na'i ddull o drafod yr Hen Destament. Yn yr un modd yr ymdrinir ag ef yn y Colegau Diwinyddol ers chwarter canrif ac mewn Esboniadau yn ogystal." Ni wn i paham y'i condemniwyd. Digon gwir ei fod yn taflu dros y bwrdd yr hen syniad am y Beibl fel Gair Duw oherwydd dywed, "Ceir ynddo bob ffurf ar len, megis hanes, dychymyg, dihareb, dameg, chwedl, drama, cerdd, barddoniaeth, etc."

Dengys i ni wahanol haenau'r traddodiad ac fel yr oedd yr hanes yn prifio, tebig i gaseg eira. Esbonia'n naturiol ac yn ysbryd gwyddor y Mor Coch, plaau'r Aifft, yr haul yn aros yn Gibeon a llawer digwyddiad arall. Ni phetrusa nodi ochr ddu cymeriad Dafydd ac y mae'n hapus wrth geisio darlunio cymeriad rhyw ddeunaw o wyr mawr yr Hen Destament. Y mae consepshwn yr awdur yn fyw a ffres; y mae wedi'i ysgrifennu mewn Cymraeg gloyw a gwna'i ddarllain les i ben a chalon pob ysgolor ieuanc. Credaf yn ddibetrus y buasai gwell graen o lawer ar Ysgolion Sul pob enwad yng Nghymru pe esbonesid y Beibl gyda'r un gonestrwydd a chyda'r un ysbryd ag y gwna'r awdur hwn. Nid oes raid i'r gwir wrth amddiffyn na chlogyn.

* * *

Marw dau Gymro.

Yn ddiweddar symudwyd dau Gymro gan angau ac iawn parchu'u coffa. Bu Syr John Williams, y meddyg enwog, farw mewn henaint teg. Ond fe ddeil ei goffa'n wyn tra saif y Llyfrgell Genedlaethol a thra barcha Cymro iaith ei fam oherwydd yn ei galon ef y ganwyd y syniad am y llyfrgell. Prynodd hen lyfrau a llawysgrifau am gyfnod hir a chyflwynodd y cyfan i'w genedl, a rywle yno y mae'r llyfr cyntaf a brynodd wedi'i lawnodi fel llyfr cyntaf y Llyfrgell Genedlaethol. Nid oes angen Maen Coffa arno, ac fe ä i lawr mewn hanes ac yng nghalon pob Cymro gwir fel Tad Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mewn cyfeiriad arall y llafuriodd y Dr. Thomas Rees, Prifathro Coleg Bala-Bangor. Brodor o Lanfyrnach, Sir Benfro ydoedd ac yn 21 oed yr oedd yn gweithio'n y lofa heb gael ond yr addysg gyffredin. Yn 1891 aeth i Goleg Caerfyrddin ac ymhen wyth mlynedd y mae mab y fferm a'r glowr yn Athro mewn Diwinyddiaeth yng Ngholeg Aberhonddu, ac mewn deng mlynedd arall yn Brifathro Coleg Bala-Bangor, lle bu am ddwy flynedd ar bymtheg. Gwnaeth wasanaeth i'w enwad ac i'w genedl ac er y medrid ysgrifennu llawer am arwriarth ei fywyd ni wnaf i ond galw sylw at ei lyfr "Cenadwri'r Eglwys a Phroblemau'r Dydd" ac at brif waith ei fywyd llenyddol, golygu y Geiriadur Beiblaidd, "y gwaith pwysicaf ar y Beibl a gyhoeddwyd erioed yn Gymraeg" a cheisiai'r Golygydd roddi i'w genedl y wybodaeth newydd am y Beibl "gan ei esbonio yn ei oleuni ei hunan ac nid trwy ddrychau credoau ac athrawiaethau." Y mae'r Geiriadur Beiblaidd wedi'i gwblhau a Thom Rees er ein colled wedi noswylio'n rhy gynnar.

* * *

Wrth son am Undeb Crefyddol dywedodd y diweddar Dr. Thomas Rees fod datganiadau Lambeth * * yn golygu "cau allan yn llwyr llawer o'r Cristionogion goreu yn y wlad megis yr Undodiaid a'r Crynwyr." Meddyliwn am hyn wrth gofio fod dau can mlwyddiant Hen Gapel y Llwyn eleni. Bu llawer tro ar fyd er y cynnwrf a'r anghydweld yng Nghapel bychan Pantycreuddyn, ond ni chredaf y medraf osod y peth yn well na thrwy gymryd darn o Ysgrif fy hen gyfaill yr Athro G. J. Williams, M.A. o'r "*Llenor*":—

"Yng ngodre Ceredigion ac yn Sir Gaerfyrddin y bu'r gwr gweithgar hwnnw Stephen Hughes yn llafurio, yn pregethu ac yn addysgu yn yr ail ganrif ar bymtheg. A chan ei fod yn llawn sel i addysgu ei braidd fel y gallent ddarllen y llyfrau a baratoi ar eu cyfair yn Llundain, ni ellir tybiaid llai nad oedd llu o'r bobl y bu ef yn eu gwylio ar fryniau Caerfyrddin ac yn Nyffryn Teifi a'r cyffiniau wedi dysgu darllen Cymraeg. Odid nad oedd mwy o ddarllenwyr yn y parthau hyn yn nechreu'r ganrif nag mewn un ardal arall yng Nghymru. Nid rhyfedd, felly, gweled yr argraffwasg gyntaf yng Nghymru yn Nhrefhedyn yn 1718. A thrwy'r ddeunawfed ganrif nodweddir trigolion y wlad hon gan ryw anesmwythyd meddwl ar bynciau crefyddol, yr hyn a barodd y fath anrhefn a chwalfa ymhlith yr hen Anghydffurfwyr. Yno y cododd pregethwyr fel Jenkin Jones a Dafydd Llwyd, gwyr oedd mewn cysylltiad a meddyliau rhyddaf Lloegr. Gwyr oeddynt a feirniadai'r hen ddiwinyddiaeth draddodiadol ac a ymdrechai am ryddid barn mewn byd ac eglwys. Ac o blith y bobl hyn y cododd y rhai a lawenychai fwyaf pan glywyd y newyddion o Ffrainc yn 1789 ac a obeithiai weled rhywbeth tebig ym Mhrydain.

Felly troes hen Anghydffurfwyr y parthau hyn yn Arminiaid, wedi hynny yn Ariaid ac yn olaf yn Undodiaid. Ac yma yn unig, yng ngwlad y mân dyddynnod rhwng Llanbedr a Llandysul, y cafodd hadau Undodiaeth ddyfnder daear yng Nghymru,—y wlad a alwyd gan Fethodistiaid Canol y Sir yn eu doethineb yn 'Ysmotyn du.' Er hynny, ni synnwn ddim pe dywedai hanesydd yn y dyfodol nad oedd ddosbarth o ddynion mwy goleuedig yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif na'r gwladwyr a dyrrai i wrando ar Jenkin Jones a Dafydd Llwyd a Dafydd Davis i hen gapel Llwynrhydowen."

Dyfynnais am nad oedd yr ysgrifennydd yn y "*Llenor*" a rhagfarn ganddo a chredaf y medraf brofi ar fyr iddo broffwydo'n well ond odid nag y meddyliodd parthed barn hanesydd yn y dyfodol. Digon am y tro'r dystiolaeth hon i wladwyr "goleuedig" Dyffryn Teifi gan ddiolch fod y lamp ynghynn ar ben

DAU CAN MLWYDDIANT YR HEN ACHOS YN Y LLWYN.

RHWNG DAU GYFNOD.

GAN ANTHROPOS.

I'R sawl sydd yn craffu ar y pethau a ysgrifennir am lenyddiaeth yn y dyddiau hyn, y mae yr elfen o anfoddlonrwydd yn weddol amlwg. Ychydig o ddim sydd yn cael ei ganmol yn ddigymysg. Pan adolygir ysgrif mewn cylchgrawn, dywedir ei bod yn dda mewn rhannau, fel ŵy y ciwrad gynt, ond——.

Y mae yr *ond* yn awgrymiadol. Gall y feirniadaeth redeg ar y cledrau am ennyd, *ond*——. Dyna nodwedd y cyfnod hwn. Dichon ei fod yn fath ar wrthdystiad yn erbyn y dull a fu mewn bri. Nid oedd adolygwyr y ganrif o'r blaen yn arfer canmol popeth. Gallent hwythau gondemnio yn llym a difloesgni. Ond pan gaent yr hyn oedd yn werth ei ganmol yr oeddynt yn gwneud hynny yn galonnog ac anrhydeddus. Y mae'n bosibl iddynt fod yn rhy haelionus, ambell dro, a rhoddi achlysur i ddarllenwyr beirniadol i amheu dilysrwydd eu gosodiadau. Nid oedd y byd yn berffaith y pryd hwnnw, a dynion wedi eu hamgylchu a gwendid oedd yn adolygu llyfrau, ac yn cloriannu nwyddau llenyddol. Byddai awgrymu mai dynion o'r teip amherffaith hwnnw sydd yn gwneud y gwaith yng Nghymru heddiw yn ymylu ar gabledd! Y mae'r safon wedi esgyn i fyd y "ser yn eu graddau," ac nid oes neb sydd yn "gyfaill" i'r awdur yn cael "adolygu" ei lyfr dan gysgod ffugenw.

Mantais fawr i feirniaid llenyddol ydyw bod mewn safle weddol annibynnol, mewn swydd enillgar, fel na raid iddo ofni gwg na gwên. Y mae gwyr y wasg, fel rheol, yn weision cyflog, ac nis gallant anwybyddu y sawl sydd yn eu cyflogi i hyrwyddo buddiannau'r newyddiadur, neu'r cylchgrawn. Bu adeg o fewn cof i rai o honom pan fyddai'r awdurdodau yn ymyrryd a'r sawl fyddai'n ysgrif-

ennu i'r organau a berchenogid ganddynt. Nid ydym yn tybied fod hyn yn bod yn awr, i'r un graddau, o leiaf. Ond ychydig sydd yn ddigon annibynnol ar gysylltiadau o'r fath i fedru ysgrifennu y peth a fynnont heb ystyried y canlyniadau.

Y mae gan gwmni ac enwad eu dylanwad ar y sawl fo yn trafod awduron a llyfrau; ond tra ymgedwir rhag y tiriogaethau gwahardd-edig y mae cyfeirio at *ddiffygion* llenyddiaeth wedi dod yn rhywbeth lled ffasiynol. Yr ydym yn debig i genedl Israel ynglyn a'r "manna." Collodd hwnnw ei flâs cynhenid iddynt hwy. Ac, yn raddol, daethant i'w feirniadu'n ddi-arbed— "Y manna *gwael* hwn." Hiraethent am y "cucumerau" a gawsent yng ngwlad yr Aifft. Yr oedd y "manna" yn rhy syml i daflod eu genau, ac yr oeddynt yn blysio'r "cucumerau" i awchlymu eu harchwaeth, er iddynt gael "diffyg treuliad" ar ol eu bwyta. Cyfnod y cucumerau ydyw hwn. Y mae llysieufwyd yr Aifft wedi dod i Gymru, ac nid oes galw am y "manna." Dichon fod dweyd hynny yn ormodiaith. Y mae llawer yn mwynhau y gwynder oedd wedi ei ireiddo gan y gwlith. Ond y cucumerau sydd yn cael eu gosod yn ffenestri y siopau llenyddol. Hwyrach mai dyna sydd yn cyfrif am oerni beirniadaeth yn y cyfnod hwn. Oni ddywed dihareb Seisnig fod ambell un *as cool as a cucumber*. Ac y mae hynny yn rhinwedd arbennig yn y cylchoedd beirniadol. Y mae gormod o wres a brwdfrydedd yn dangos bychander meddyliol. Nid ydyw dyn felly namyn corfforiad o *deimlad*, heb ddim barn bwyllog, *keep cool*.

Y mae cyfnod y "manna" drosodd. Rhaid wrth ymborth cryfach, a mwy blasus. Dyna ddiffyg llenyddiaeth Cymru yn y gorffennol. Rhy ddof a difenter. Nid ydyw cymedrolder mewn *iaith* ac ymadrodd yn bwysig o gwbl—dim ond i chwi ofalu am yr "orgraff" ddiwygiedig. Os nad ydyw'r gair *diafol* yn odli efo *hawl*, chwi a wyddoch sut i'w dalfyrru.

"Drylliwn eu rhwymau" ydyw arwyddair yr amseroedd. Y mae ysbryd gwrthryfel yn cerdded trwy'r tir—gwrthryfel yn erbyn yr hen syniadau, yr hen ddulliau, a'r hen safonau. Dyna sydd yn cyfrif am yr anniddigrwydd sydd yn cael ei fynegi ar bob llaw. Dichon fod iddo ochr dda a gwerthfawr. Y mae llawer o ysgrifennu am gyfnod yr *adolescent*. Tymor twf bywyd, a chyfnod anesmwyth ydyw hwnnw yn hanes y rhan fwyaf. Y mae rhyw anniddigrwydd yn meddiannu enaid yr ieuanc. os yn iach a heinyf. Nid ydyw yn barod i ganmol dim. Y mae'n methu deall edmygedd ei dad a'i fam, o bersonau a phethau nad ydyw ef yn gweled dim rhagoriaeth ynddynt. Hawdd ei gondemnio, a dywedyd nad oes ganddo na gwybodaeth na phrofiad digonol. Ond nis gellir ei atal heb wneud cam a'i bersonoliaeth. Cyfnod twf ydyw ieuenctid, ac ni ellir tyfu heb adael llawer o bethau ar ol. Nid gwisgoedd y gorffennol sydd yn ei ffitio ef. Rhaid iddo gael ei ddiwyg briodol. "Ac i bob hedyn ei gorff ei hun."

Dichon, meddwn, mai dyna hanes llenyddiaeth Cymru yn y dyddiau hyn Nid ydyw'r hen wisgoedd, yr hen arddull, yn gymeradwy gan oes newydd. Try y llindysyn yn y man yn loyn byw, a'i adenydd ysgafned a'r gwawn!

Onid oes mewn llindysyn,
Eglurhad goleu ar hyn?

A chan i ni grybwyll am y gloyn byw, yr ydym yn cael yr hyfrydwch o edrych arno yn y munudau hyn ar ei hedfan yn yr ardd. Daeth yma fel awyren dros y clawdd, a disgynnodd ar flodau'r afalau. Dyna sydd yn ei atynnu ef—nid y riwbob, a'r bonion cabaits, ond y pren afalau. Onid oes ganddo chwaeth dda? Anodd dweyd pa un yw'r tlysaf—blodyn y pren, ynte adain y gloyn byw.

Hoffem weled mwy o anianawd y gloyn byw ar randir llenyddiaeth. Ar ba bethau y mae meddyliau ieuainc yn disgyn, ac yn aros, yn y dyddiau hyn? A ydyw blodau'r pren afalau yn ennill eu sylw a'u hoffder? Os felly, y mae popeth yn dda.

BECA.

Heddiw cefais achos i ddwyn ar of hanes gwerthfawr iawn. Daeth un o fechgyn ieuainc y dref am dro i'r bwthyn hwn. Ei neges oedd casglu tipyn o helynt Rebeca, a fu'n uchel iawn ei bri yn yr ardal hon flynyddoedd maith yn ol.

Wrth gwrs nid oeddwn i ond dwy flwydd oed pan orffennodd Beca ei llafur; ond, clywais fy nhadcu yn adrodd llawer am y terfysg.

Yn awr, rhoddaf ar glawr stori a glywais droion ganddo.

Yn y gymdogaeth hon y mae fferm o'r enw "Llety'r Wennol." Y perchennog, unwaith oedd Tomos Dafis, dyn di-briod. Tuag adeg yr helynt hwn yr oedd efe yn ddeugain mlwydd oed. Hyd yn hyn, ni chafodd yr un ferch ei sylw, er i lawer llygad syrthio arno. Yn wir, onid oedd efe, ar lawer cyfrif, yn werth ei gael? Cyfrifid ef yn weithiwr diwyd, yn ddarbodus ac yn feddylgar.

Un chwaer oedd gan Domos Dafis. Ymbriododd hi yn anniben iawn, ac yn hollol groes i ddymuniad ei brawd. Mewn canlyniad, ysgarwyd hwy. Dywedodd efe wrthi am beidio byth eto a thywyllu drws "Llety'r Wennol." Nid oedd am ei gweld hi na neb o'i haelwyd.

Ar ol y briodas aeth Marged i fyw i amaethdy, ddeng milltir i ffwrdd, o'r enw "Llwyn Drain." Trigodd yno am flynyddoedd mewn tylodi mawr.

Oherwydd amlder y tolldai a'i blinai ef a'i wehelyth, ymrestrodd Tomos Dafis ym myddin Rebeca. Gobeithiodd weld y dydd y diddymid pob adeilad o'r fath yn yr ardal. Am dros flwyddyn o amser gweithiodd yn egniol dros yr achos, gan golli llawer awr o gwsg melys. Ond cyfrifai ei aberth yn wasanaeth o blaid rhyddid gwerin ei wlad.

Ni ffafrai Gwen, morwyn Llety'r Wennol, mo'r mudiad o gwbl. Yn wir, achosai ei hoffter o'i meistr ofn yn ei chalon. Pan elai efe ar ei deithiau, ni fedrai hi byth gysgu'n esmwyth gan ei phryder. Yn ddistaw bach, gobeithiai hithau am fuddugoliaeth yr achos, a hynny er mwyn cadw Tomos o ddwylo'r gyfraith.

Bu unnos ym mis Mawrth, 1844, yn bwysig iawn ar aelwyd Llety'r Wennol. Eisteddai Tomos a Gwen mewn cadeiriau o flaen y tan, a dechreuwyd siarad fel hyn,—

"Odi nhw'n dod ma heno to, te, Tomos?"

"Wel, odyn, ferch. Fe gynhelir y cwrdd ymadawol da ni, heno.

Trw drugaredd, 'r y'n ni wedi ennill y dydd. Ma'r Llywodraeth yn barod nawr i wrando ar ein cwynion."

"Wfft i chi a'ch trafferth," meddai Gwen. "Yr ydych wedi peri llawer o ffwdan i'r wlad a finne, ta beth, Tomos. Beth pe gwydde'ch tad am y fusnes hon?"

"A beth am hynny, Gwen?" gofynnai Tomos, gan ymsythu yn ei gadair.

"Wel, fydde fe ddim yn folon i hyn, 'r wy'n shwr."

"Tewch, da chi. Mi fydde'n nhad yn barod i godi'i fraich gystal a neb yn erbyn gorthrwm a thrais. Ma'n dda gen i gredu nad yw gwroldeb wedi marw allan o'n teulu ni, hyd yn hyn. Byddaf yn falch am byth i ymladd dros achos teilwng fel hwn. Brenhines a fynnodd ryddid i'r amaethwyr yw Rebeca. Bydd son amdani yn ysbrydiaeth i werin y dyfodol, os ceir hi dan draed gormes. Oes y byd i Ysbryd Beca, ddweda i."

Tawelwyd Gwen gan hyawdledd Tomos Dafis, ei meistr. Eisteddai hi gan wau ei hosan. Am ychydig amser, swn y gweill yn unig a lenwai'r gegin.

"Yr ydych bron ag ennill y dydd te, mistir," gofynnai, ymhen amser.

"Gwir, Gwen. Ma'r Llywodreth bellach yn cydnabod ein hawliau."

Gyda hyn, clywyd curiad wrth y drws, a daeth cymydog i mewn. Efe oedd Ifan, Ty'n Fron, un o gyfeillion mynwesol Tomos. Gwedi iddynt gyfarch ei gilydd a son am y tywydd tynnodd Ifan ei gadair at y tan, a chydiodd yn ei bibell.

Aeth Gwen i'w gwely, gan fod ei chefn yn well na'i hwyneb yn y gegin, y noson honno.

"Tipyn yn swrth wyt ti heno, Tomos. Beth sy'n bod ?"

"Rhyw dipyn yn gymysg yw nheimlade i rywfodd, heno, Ifan. Ar un olwg 'r wy'n falch fod helynt Beca ar ben. Ar olwg arall, mae'n flin gen i golli cwmni rhai o'r bechgyn ma"

"O'n wir," meddai Ifan. "Pwy y'n nhw,—a mod i mor hyf a gofyn ?"

"I ddechre, dyna Beca ei hun. Wn i ar y ddaear pwy yw hi, wrth gwrs."

"'R wy i o'r un farn a ti yn gwmws."

"Ie, a dyna Shaci wedyn," meddai Tomos. "Fe fydd yn anodd gen i ffarwelio ag e. Ma fe wedi ennill y nghalon i yn llwyr. Mi nawn i unpeth i gadw Shaci gen i yn y Llety ma."

"Oes ma gan Shaci ysbryd caredig. Ond, Tomos, gwed wrthw i un gair bach. A welest ti wyneb Shaci ?"

"Naddo ddim. Ma fe'n ofalus iawn i guddio'i hunan," oedd yr ateb. "Ond, mi weda i hyn wrthot ti. Llaw fach sy gydag e," meddai Tomos. "Mi gydies yn i law e pan gwmpodd e oddiar y ceffyl yn Llambed. A dyna deimlad rhyfedd ges i."

"Beth sy ar bachgen !" meddai Ifan.

"Oes, ma dag e law fel lodes,"

Ar y gair dyma John, Hafod Fach i'r ty. Perthynai yntau i'r cwmni.

O dipyn i beth awd i son am un noswaith, tua mis yn ol pan fu digwyddiad go ddoniol yn Llanon. Aeth y si ar led fod Beca a'i phlant i ymosod ar dolldy Llanon. Y canlyniad fu i'r awdurdodau ddanfon chwe milwr i ofalu am y lle. Aeth amryw nosweithiau heibio heb i neb aflonyddu ar eu heddwch. Ond, un noson, ymddangosodd hen wr, trwm ei glyw, a chanddo becyn ar ei ysgwydd. Dywedodd mai ei neges oedd gwerthu hosanau. Ymhen ychydig deallodd yr hen wr fod pob un o'r milwyr yn drwm dan effaith y ddiod.

"Cadw dy sane," meddai un ohonynt, "a rho i ni hanes y cythreilied na sy'n torri'r clwydydd ma. Hawdd gallan nhw fynd at hen bobol. Ond ma ofan dynion sy'n ymladd arnu nhw."

Ar hyn cododd un arall ohonynt a heriodd bob Beca yn y byd i ymosod.

"Go lew," meddai'r hen wr. "Yr wyf yn edmygu eich gwroldeb. Er mwyn rhoi yr her yn iawn gosodwch ole yn y ffenest."

Ceisiodd sawl un ohonynt wneud hyn, ond un a lwyddodd. Gwaeddodd hwnnw, "Dyma her i Beca a'r diawlied sy'n ei dilyn."

Gyda'r gair, wele'r drws o led y pen, a daeth Rebeca a'i chanlynwyr i mewn.

"Ma'n dda gen i eich gweld yma." meddai hi wrth y milwyr. "Yr wyf yn gorchymyn i chwi ddod allan i daro'r ergydion. Dewch, mae pob ergyd i'r tolldai hyn yn ergyd o blaid rhyddid y werin."

Heb godi llais o wrthwynebiad aeth y chwe milwr meddw allan. Ar fyr, dinistriwyd y cyfan, a llwyddodd Beca i agor llwybr agored i bentref Llanon.

"Cofiwch chi," meddai Tomos, "'r oedd Shaci'n ddewr i fynd at y milwyr yn eu ffau."

Erbyn hyn daeth yr awr i'r cwmni ddod ynghyd. Cyrhaeddodd un aelod ar ol y llall, a Shaci oedd y diweddaf.

A dyna olwg oedd arnynt, mae'n debig, fel canlynwyr Beca. Gwisgai pobun ohonynt ffrog "smock" amdano a "thurban" am ei ben. Dros ei wyneb yr oedd mwgwd du. Yn nwylo rhai oedd drylliau, a chan eraill fwyeill bychain disglair wrth eu gwregys. Anodd, yn wir os posibl hefyd oedd eu hadnabod yn y goleu cryfaf.

Plygodd pob aelod i Feca gan ddweyd,—

"Ffyddlondeb hyd angau i achos Rebeca, ein brenhines."

Ar ol derbyn gwrogaeth yn y dull yma dywedodd hithau mai am ychydig amser y bwriadai eu cadw y noson honno. Yr achos oedd fod y Llywodraeth, erbyn hyn, yn golygu symud y beichiau a orweddai cyn drymed ar ysgwyddai'r werin. Wrth ddiweddu'r araith meddai hi,—

"Fy mhlant, os byth y ceir achos i wrthryfela eto yn erbyn gormes, gobeithiaf y dewch allan i'r maes

gyda'r un glewder a gwroldeb yr adeg honno ag a ddangoswyd yn ystod y misoedd diweddaf hyn. Bellach, mae'r cadwyni a fu amdanom yn ddarnau, a ninnau yn rhyddion o'n caethiwed. Fy mhlant, ceisiaf gennych i addunedu o'r newydd. A ydych yn addo dod eto i frwydrau, os bydd galw, dros iawnder a rhyddid ? "

Gyda hyn aeth un canlynwr ar ol y llall i gydio yn neheulaw Rebeca, a dweyd ar ei ddeulin,—

" Yr wyf yn tyngu llw o ffyddlondeb yn enw Duw yr arhosaf hyd fy medd yn ddewr dros ysbryd Rebeca. Nawdd y nef a'i chadwo'n ddilychwin ei chymeriad tros byth."

Ag eithrio Rebeca ei hun, Shaci a Thomas Dafis, gwasgarodd y cwmni gan dderbyn bendith y frenhines.

Wedi ychydig seibiant siaradodd Rebeca gan ddywedyd,—

" Tomos Dafis. Yr wyf dan ddyled i chwi am eich cymorth i'm hachos. Mawrygaf, bob amser, y fraint o'ch cyfeillgarwch. Edmygaf chwi fel dyn o egwyddor bur a delfrydau uchel. Disgynned y nef ei chawodydd breision ar eich llwybrau. Cyn imi ymadael heno, dymunat ddatguddio i chwi un gyfrinach,."

Gyda'r gair, diosgodd ei gwisg oddi amdani, a datguddiodd i Domos Dafis mai Rebeca oedd un o ddynion parchusaf tref Aber Ystwyth. Mab i amaethwr tlawd oedd, ond dringodd i safle ac urddas. Er hynny ni anghofiodd friwiau ac archollion y werin y cafodd ei grud yn ei chanol.

Bu'r datguddiad hwn yn syndod anferth i Domos Dafis, a chyn iddo sylweddoli'r cyfan ceisiodd Rebeca ei ganiatad i ymadael.

Cymysg yn wir oedd teimladau Tomos erbyn hyn. Llawenychai gymaint yn herwydd y wybodaeth a estynnwyd iddo.

Ond, gwaetha'r modd, blinai hefyd am fod awr ei ymadawiad a Shaci wedi dirwyn i ben. Eisteddai hwnnw yn y gadair freichiau gan syllu'n freuddwydiol i lygad y tan.

Eisteddoedd yntau Tomos mewn cadair arall. Erbyn hyn yr oedd y distawrwydd yn llethol i'r ddau. O'r diwedd, mentrodd Tomos ei dorri gan gyhoeddi,—

" Wel, Shaci. Mae'n flin gennyf eich colli o'm bywyd. Cefais fwynhad mawr yn eich cwmni, er mai distaw oedd eich tafod ar bob achlysur. Bydd yn galed i mi ddweyd ffarwel wrthych."

Gyda hyn cododd Shaci ar ei draed, a chiliodd i gyfeiriad y drws, gan ddweyd,—

" Nid yw yr ysgariad yn llethu eich ysbryd chwi yn fwy nag y beichia fy ysbryd innau. Bydd ar fy nghalon greithiau i'm hatgofio ohonoch. Nos da, Tomos Dafis. Cawn gwrdd eto, gobeithio. Ffarwel."

Gwylltiodd Tomos o'i gadair.

" Shaci," meddai. " A gaf i un gymwynas gennych ? "

" Beth yw honno ? "

" Cyfrinach. Pwy y'ch chi ? "

Aeth Tomos at y drws, a gofynnodd gyda thaerineb,—

" A fedrwch chi fod mor greulon ?"

" Na fedraf," oedd yr ateb.

Ar amrantiad, gyda phrydferthwch breuddiwyd, gweddnewidiwyd Shaci. Tyfodd yn ferch lan, feingorff, lygatddu.

" A gaf i dyngu fy ffyddlondeb i chi ? " gofynnai Tomos.

" Cewch,—a chroeso," meddai hithau gan wenu'n dyner.

" Pwy y'ch chi te ? " gofynnai yntau mewn penbleth.

Deallodd Tomos y gyfrinach trwy gyfrwng y wên honno.

" Nano, merch Marged, "Llety'r Wennol," meddai hithau yn swil.

J. Seymour Rees.

Y WIALEN FEDW,

Goridus frig y Fedwen—wna Jeshad
I'r sawl sydd a'i hangen ;
Ni phoena praff fôn y pren*
Yr aelwyd lle bo'r Wialen.

*Y Croegbren.

Gwilym Deudraeth.

SUSPENS.

(Tri Darlun).

Y MAE'R gair *Suspens* yn ddieithr ond nid y teimlad. Hoffaf y gair, nid am ei fod yn air Saesneg ond am na wn i mo'i gyfystyr yn y Gymraeg. Y mae ystyr bendant i *Suspens*, a gwyr pob un am y teimlad; y mae fel hud a lledrith ac anodd yw ei roddi mewn geiriau. Daliai'r Deon Swift mai bywyd y coryn yw byw mewn *Suspens*. Medrir paentio golygfa a disgrifio iâs ceffylau neu gwrs milgi ond nid felly gyda'r teimlad hwn. Ychydig amser yn ol ymgomiwn a morwr. Yr oedd wedi'i *dorpedo'n* ystod y Rhyfel Mawr ac nid ar fyr yr ä'r profiad yn angof. Cofiai'i hun yn suddo, suddo'n ddiddiwedd bron a rhyw law anweledig o'r dyfnder yn ceisio'i dagu. Ni fedrai anadlu a cheisiai afael yn y dwr hallt na fynnai mo'i ddal. Doi'i fywyd o'i flaen mewn flach megis, ac yntau ar y ffin: Disgwyliai heb wybod beth ac ofnadwy y *Suspens*. Eto nid oedd y cyfan ond mater o ychydig o eiliadau prin. Tebig bob amser yw *Suspens*. Oeda'r anadl. Cymer y galon hoe. Oera'r gwaed. Y mae'r cyfan yn duo Collir gafael ar bwerau goreu nef a daear wrth suddo i bwll anobaith. Torrir yn rhydd oddiwrth rafluniaeth Duw a sefir o'r tu allan i'r cread. Disgwylir i rywbeth ddigwydd, waeth beth. Y mae unpeth yn well na'r *Suspens*. Sonia Bulwer Lytton fod mis o *Suspens* i lofrudd pump ar hugain yn ddigon i aredig yr wyneb llyfn, glasu'r gwallt du a gwynnu'r gwallt glas.

Dro'n ol eisteddwn ger ffenestr fechan fy nghartref. Yr oedd yn ganol haf a chlos gyda llaw. Unlliw ag inc y cymylau ar fy nghyfair. Yr oedd y da a fu'n gyrru'n "blufiaid" wedi aros erbyn hyn. Gynneu yr oedd ambell awel dro'n siglo'r dderwen lydanfrig gerllaw'n ddisymwth fel pe cydiasai cawr hanner gwallco ynddi. Yr oedd wedi gildio. Peidiasai'r cymylau a gwau drwy'i gilydd ers tro, a throes yr inc yn gochddu tebig a phe arllwysid mewn direidi botelaid o inc coch ar ben inc du. Medrech deimlo'r tawelwch. Ar y dechreu cân y fwyalchen a'm hudodd i'r ffenestr ond distawai hithau bob yn dipyn, rhyw fwmian ambell nodyn a wnae, dyna i gyd, tebig ag y gwna cantorion mawr wrth gymryd swn. Tawodd y fwyalchen. Peidiodd y gwynt. Daliodd natur ei hanadl. Ar y foment wele'r Nefoedd yn fflam dân—Ni fedrwn ddywedyd dim. Daliwn fy anadl. Gwyddwn i ddisgwyl. Yr oedd fy nghalon yn fy ngwddf. Crynwn. Ofnwn. Paham yr oedi? Rhyw foment neu ddwy yr oedd mewn gwirionedd ond i mi ymddangosai'n gyfnod hir. Disgwyliwn, ac ofnwn a ddisgwyliwn. A ddoi rhywun? *O'r Suspens*! Yna peidiodd y tawelwch. Rhwygodd y nefoedd a'r cread. Yn iaith Ap Gwilym,—

"Trwst taran tros y tiroedd."

* * *

Ychydig amser yn ol, y noson cyn y streic yr oeddwn ar y stryd yn hwyr. Nid oeddwn yn wahanol i bawb. Yr oedd pawb ar y stryd y noson hon yn disgwyl, ond heb sylweddoli fod pethau cynddrwg. Yr oedd y cloc mawr yn taro deg. Doi newydd ar ol newydd megis o'r anwel. Hanes ambell dro ysmala, cricet, rasis, popeth ac unpeth. Chwarddai'r dyrfa fawr. Yr oeddem yn cellwair a'n gilydd. Gwnae ambell un direidus ei hun yn glown—yn ddiangen hollol. Ni wn i am deimlad neb arall ond rywsut ni phryderwn ddim, oherwydd credwn y buasai Synnwyr Cyffredin yn buddugoliaethu cyn hanner nos. Camsyniais. Yr oeddwn fel llawer un o'm blaen yn barod i lunio nghred wrth yr unfed awr ar ddeg. Gweem drwy'n gilydd. Draw cleber, yma pwff o chwerthin iachus ddigon,

dyna'i gyd. Edrychwn ym myw llygaid fy nghymydogion ond ni welwn na'r gofid na'r pryder a allaswn weled yno. Ae'r berw a'r cleber ymlaen. Cynhyddai'r dorf a daliai'r cloc i daro bob chwarter awr. Yr oedd yr hen gloc yn dwyn tragwyddoldeb yn agos ar waethaf ein streics ni. Y mae amser yn mynd ac ni ddychwel mwy gan ein symud ninnau gydag ef. Fel yr hwyrheai peidiai'r chwerthin a'r cleber ofer. Llonyddai'r dorf. Yr oeddem yn dechreu teimlo'r straen. Ni chlywem ond hwt ambell fodur, ambell ddrws yn agor a chau ac ambell dramp troed ar y palment yn dynesu. Disgwyliem. Doi'r newyddion mae'n wir yn gyffredin o enau agored y Loud Speaker. Pob newydd ond a ddisgwyliem a'r cloc yn taro unarddeg. Y mae rhywbeth yn sŵn yr unfed awr ar ddeg. Y mae'n beryglus o agos i ddeuddeg. Hwyrach fod hen adgofion ynghlwm a hi. Pwy ŵyr? Ni fedraf ddywedyd. Clywais sôn am dani droion o bwlpud, son fod cyfle i bechadur droi hyd yn oed ar yr unfed awr ar ddeg. A chymryd esboniad o fyd meddyleg, hwyrach fod y cyfan yn fy is-ymwybyddiaeth yn disgwyl cyfle i ruthro'r drws er dod i'm meddwl. Beth bynnag, wrth rifo'r cloc yn taro unarddeg y noson hon, yr oedd popeth ynghlwm wrthi, y pryder a'r straen, hen ofergoelion a thraddodiad. Rywsut dug bopeth gyda hi.

Am chwarter awr, siaradai pob un dan ei lais pan siaradai. Peidiodd y cellwair a'r difyrrwch ers tro. Yr oedd y clown wedi sobreiddio. Nid oedd un nodyn comic i'w glywed, a dyma'r hen gloc yn taro'r cwarter. Doi'r newyddion fel cynt o bedwar ban y byd, newyddion pwysig a dibwys. O'r diwedd dyma'r llais yn dywedyd "Y mae un newydd am y streic wedi dod i'm llaw y foment hon." Ar hyn peidiodd y Wireless. Aeth ar Streic. Daliai pawb ei anadl gan ddisgwyl. Disgwyl beth ni wn i. Tynheai pob gwefus a gwelwlasau un a gwelwai'r llall. Mynnai pryder dremio drwy'r llygaid. Gallasech glywed pin bach yn disgyn. Yr oedd y disgwyl yn hir a dim ond rhyw swn cryglyd crâs yn yr hên gorn. Disgwyliwn hyd yn oed i'r hen gloc daro; unpeth er torri ar y distawrwydd llethol. Yr oedd pob meddwl ar y streic ac ar y corn, ac wedi iddo yntau glirio'i wddf dro ar ol tro dyma'r llais o'r diwedd yn glir a hyglyw. *O'r Suspens*! Yr oedd pawb yn glustiau i gyd. Edrychem ar ein gilydd. Gwrandawem. Dyma glywsom :—

Pob ymdrafod wedi peidio. Streic!

Cyn pen hanner munud nid oedd odid neb ar y stryd. Troes pob un i'w ffordd yn ddistaw. Toddodd y dorf megis cyn dod dros y *Suspens*.

* * *

Rhyw fis yn ol yr oeddwn mewn ty clâf. Bum droion o'r blaen felly. Nid hoffaf fynd bob amser oherwydd na fedraf ond cydymdeimlo'n fud a rhywrai mewn cyfyngder. Y mae ambell gyfyngder yn rhy ddwfn i eiriau na dagrau, neu dyna fel y teimlaf i o leiaf. Geneth fechan ddwy oed a'i horiau megis wedi'u rhifo oedd yno, ac yn tynnu'n galed; ymladd am ei hanadl ac yn tynnu am y lan hyd y gwelwn i. Edrychwn arni a thrown ymaith am foment oherwydd y poen. Edrychwn eilwaith arni ac yr oedd yn gwaelu megis gyda phob trem. Crio? Yr oedd yn rhy wael i grio. Ni fedrai ond griddfan yn ddistaw bach a phob griddfan yn ddolur calon. Y mae plentyn bach yn onest a diniwed. Nid oes ffug na sham yn perthyn iddo, a gwenai'r fechan ar ambell hanner munud esmwythach na'i gilydd ond yr oeddent yn brin ac yn prinhau'n gyflym gyflym. Ni fedrwn esmwythau'i phoen. Nid oedd gennyf ond syllu arni heb fedru estyn help llaw. Edrychwn ar y cloc. Yr oedd dau o'r gloch yn hir yn dod. Mor anesmwyth ydoedd! Yr oedd ei breichiau bach yn aflonydd a'r cyfan yn mynd. Yr oedd yr awr a ofnid ei gweld yn dod ddoe yn cael ei disgwyl heddiw. Daeth yr awr a'r meddygon hefyd.

Pwy fedr syllu ar baratoi gogyfer ag *operation* heb deimlo'i du fewn yn rhoddi tro? Nid myfi.

Ymhen ennyd fe ddistawodd y griddfan oer a hir, a'r galw "mam." Ofnem. Mynnai'r clorofform ddistawrwydd a thawelwch i'r meddyg. Disgwyliem. Ai ofer y disgwyl? Ofnem a'r fechan ar lan yr afon. Dychmygem glywed swn troed. Tybed fod y cyfan drosodd a'r bywyd wedi ffoi? Nid oedd i'w glywed ond yn nychymyg y pryderus. Hir yw pob aros. Rhuthrai mil a mwy o bethau drwy'r cof. Syllem yn ddistaw ar ei theganau bach. A fydd eu heisiau arni mwy? Clywem glic yr offer dyna'i gyd dro hir, ond ust! Dyna'r drws yn agor a rhywun yn dod i waered dros y grisiau. Nid mewn brys! Paham os oedd ganddo newydd da? Nid yn bwyllog! Paham os oedd y cyfan drosodd? Beth oedd y gyfrinach oedd ynghadw ganddo. Yr oedd y straen yn annioddefol—O'r *Suspens*! * * Ffoes pryder o leiaf am dro gyda'r newydd—Anghofir llawer peth ond ni anghofir y *Suspens*. Y mae wedi'i sero ar y galon—ac o bopeth a ddaw i gyfarfod a dyn mewn bywyd nid oes dim yn lladd fel *Suspens*.

CYMANFA GANU SIR FORGANNWG.

Mr. Golygydd, — Caniatewch imi ofod bychan i gynnyg ychydig eiriau o eglurhad ar y mater uchod, am fy mod o'r farn nad yw eich gohebydd "Hen Edmygydd" yn hollol gyfiawn, yn ei sylwadau yn eich rhifyn diweddaf, at eglwys y Graig, Trebanos.

Yr oedd cor eglwys y Graig yn cofio yn eithaf da am y Gymanfa pan ymgymerwyd a pherfformio Oratorio y "Messiah." Amcanwyd i'r gyngerdd gymeryd lle ar yr 1leg o Fawrth. Buasai hynny yn gadael digon o amser i ymbaratoi ar gyfer y Gymanfa. Ond mae gennym awdurdod Robert Burns dros ddweyd "The schemes of men and mice gang aft agley," ac felly y bu yn yr achos hwn. Methwyd trefnu'r gerddorfa a'r neuadd gyhoeddus gyda'i gilydd cyn y 25ain o Fawrth. Nid oedd hynny yn gadael ond rhyw ddeg diwrnod yn glir rhwng y ddau achos. Gwnawd y goreu fedrem tan yr amgylchiadau, i ymarfer yr emynau a'r tonau yn yr oedfaon ar y Sul ac ar achlysuron ereill i fod cyn baroted ag oedd modd erbyn y gymanfa. Ond fel yr oedd yr amser yn agoshau yr oeddem yn ymwybodol y buasai yn amhosibl i ni wneuthur ein rhan yn y Gymanfa a fuasai yn deilwng o honi. Yn yr argyfwng hwn yr ysgrifennais, ar ol ymgymghori a'r arweinydd, at ysgrifennydd y gymanfa, i ofyn ai nid oedd yn bosibl gohirio y Gymanfa am fis neu chwech wythnos, er mwyn ymbaratoi yn briodol. Ei atebiad oedd mai amhosibl oedd ei gohirio am y tymor awgrymiadol ac mai gwell tan yr amgylchiadau fuasai ei gohirio am flwyddyn. Gosodwyd y mater o flaen yr eglwys ar y nos Sul ganlynol, a phenderfynwyd yn unfrydol mai dyna yr unig beth allesid ei wneud. Cytunaf a "Hen Edmygwr" am werth y Gymanfa i'r eglwysi, a hyderaf y caiff ei hadferyd y flwyddyn nesaf tan amgylchiadau mwy ffafriol. Ond nis gwn at beth y mae yn gyfeirio pan ensynia fod "Ysbryd hunanoldeb wedi meddiannu rhywrai, a grym eu dylanwad hwy sydd wedi peri y dinistr eleni." Ni wn chwaith beth a olyga pan ofyn "Onid oes llawer o swn y geiniog yn y gymanfa?" A oes ganddo gynllun i gario ymlaen y gymanfa heb gasgliad na swn ceiniog ynddi? Os oes, diameu y carai ysgrifenyddion y cymanfaoedd canu gael gair oddiwrtho.

Yr Eiddoch yn gywir,

D. G. Rees.

GYLCH Y FORD FACH.

IEUANC OED.

Rwy'n caru trem y blodau glân,
A thrydar mwyn yr adar mân ;
Nid oes na nant na brysiog li
Na thawel lyn nas caraf i.

'Rwy'n caru teg a glawog hin,
Y Gwanwyn gwyrdd a'r Hydref crin,
'Rwy'n caru tywydd poeth ac oer,
A goleu haul a llewych lloer.

Rhyw "newydd wyrth" i'w gweled sydd
Ar hyd y ddaear hên bob dydd ;
Diolchaf, canaf am gael byw
I weled harddwch cread Duw.

Ond pan ddel henaint llesg ei droed
A difa nefoedd ieuanc oed,
A bery o hyd fy nghalon i
I garu gwaith dy fysedd di ?

J. T. J. (*Gwaed Ifanc*).

IAGO AB DEWI.

Ni thybiaf fod odid un o'r disgyblion Gylch y Ford Fach wedi clywed sôn am enw Iago ab Dewi heb sôn am wybod ei hanes ac eto y mae iddo'i le yn hanes llenyddiaeth y genedl. Brodor o bentref Llandysul ydoedd ac fe'i ganwyd yn 1648. Bu fyw am amser ym Mhencader ac wedi hynny yn Llanllawddog lle y bu farw yn 1722 dros ddau can mlynedd yn ol. Y mae'n enwog fel cyfieithydd gweithiau crefyddol ond nid dyna paham y'i gosodais i ef yma. Yn ddiweddar bum yn darllain hen benillion telyn. Ni wyddys pwy a'u canodd, ond y mae awen nwyfus y Cymro ynddynt ac ambell adlais o benillion yr hen Ficer. Nid ydynt amgen na ffilosoffi'r oes gyda'i golwg oleu ar fywyd cyn dwyn prudd-der y Diwygiad Methodistaidd i fywyd y genedl. Nid oes ynddynt farddoniaeth aruchel hwyrach ond y mae rhywbeth yn syml, rhywbeth yn naturiol, rhywbeth yn fyw ynddynt. Wele engraifft neu ddwy :—

Dyn a garo grwth a thelyn,
Sain cynghanedd can ac englyn,
A gar y pethau mwyaf tirion
Sy'n y nef ymysg angylion.

* * *

Tri pheth sy'n anodd 'nabod,
Dyn, derwen a diwrnod ;
Y dydd sy'n hir, y pren yn gau
A'r dyn yn ddau-wynebog.

Clywais ddadwrdd, clywais ddwrdio,
Clywais ran o'r byd yn beio ;
Erioed ni chlywais neb yn datgan
Fawr o'i hynod feiau'i hunan.

* * *

Yn gymysg a'r hen benillion telyn y ceir amryw o "ddyrifau" Iago ab Dewi a dyna paham y'i galwaf i gof. Cydweithiai a Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin a cheir ym Mlodau Dyfed nifer o'i "ddyrifau." Y maent yn dwyn yr un nodweddion a'r penillion telyn ond fod mwy o ddifrifwch yma. Wele ychydig engreifftiau y bydd yn werth eu trysori ar gof :—

Gorau doethder yw difrifwch,
Gorau physyg yw sobreiddiwch ;
Ac o'r golud a'r meddiannau,
Cydwybod dda yw'r trysor gorau.

* * *

O'r ysgoldai a'r athrawon
Sy'n y byd i ddysgu dynion,
Gorau ysgol yn yr hollfyd
I ddysgu dyn, yw ysgol adfyd.

* * *

Dyn yn cael ei anrhydeddu
Heb ddoethineb yn ei feddu—
Sydd fel pren a fai'n blodeuo
Heb ddim ffrwyth un amser arno.

Perchen tafod a arfero
Ddweyd am bawb y peth a fynno ;
Bydd rhaid iddo wrando'n fynych.
Lawer peth ni bo'n ei chwenych.

* * *

A thebycaf peth i Satan
Oni bydd ef yno'i hunan,
Yw rhith gristion tra gwybodol
A fo'n byw yn anghrist'nogol.

* * *

Da am dda sydd dra rhesymol,
Drwg am ddrwg sydd anghristnogol ;
Drwg am dda sydd dra chythreulig,
Da am ddrwg sydd fendigedig.

* * *

Na chais byth, os wyt ddeallus
Gyfiawnhau un tro drygionus ;
'E wna hyn o weithred ddifraint
Hyd y camwedd y dau cymaint.

* * *

N.N.

PRIODAS.

Fore Sadwrn, 27 o Fawrth, ym Mrondeifi, gan y Gweinidog (ym mhresenoldeb y Cofrestrydd Mr., Enoch Davies) unwyd mewn glan briodas Mr. Ted Jones, Garnant a Miss Nellie Jones, ail ferch Mr. a Mrs. John Jones, Tanybryn, Cwmanne, Llanbedr, ill dau'n aelodau o'r eglwys. Gwened y nef yn dirion arnynt drwy gydol oes.

" Heb wyntoedd croes fo'ch oes chwi,
Dan heulwen, Ted a Nellie ! "

MARWGOFION.

Mawrth 28, yn 48 mlwydd oed, bu farw John Jones, Coedmorfawr, Llanbedr (gynt o Grugymaen, Llanwenog), yn yr Ysbyty yng Nghaerdydd. Yr oedd wedi ei orfodi i fynd dan driniaeth llawfeddyg ond ehedoedd yr ysbryd yn ddirybudd. Nid oedd ond ychydig fisoedd er pan gymerodd fferm y Coedmor ac wele'i gynlluniau wedi'i dyrysu a gweddw ieuanc ynghyd a'i ddau amddifad fach yn wylo am briod tyner a thad caredig. Y dydd Iau canlynol hebryngwyd ei weddillion marwol i fenwent Neuaddlwyd. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. D. Jones a T. O. Williams. Yng Nghapel y Neuaddlwyd pregethwyd ei bregeth goffa gan Weinidog Brondeifi oddiar y geiriau, " Calon lawen a charedigrwydd brawdol : Profwch yr Arglwydd : Efe a geidw yr amddifad a'r weddw." Cynorthwywyd gan y Parchn. T. Gwilym Evans, E. Glyn Edwards a Lewis Williams. Gadawodd heblaw ei briod a'i ddau blentyn, dad oedrannus, chwaer a brodyr mewn galar. Gofaled y nef yn dirion am danynt.

Ar yr 11eg o Fai, yn 60 oed, bu farw Anne Jones, Penrhiw, Silian, ar ol cystudd hir a phoenus. Merch ydoedd i'r diweddar David aMary Jenkins, Blaenwaunganol, Llanwnen ; ac yr oedd yn un o deulu lluosog o blant—pump o'r rhai sydd eto'n fyw—tri ym Mlaenwaunganol (brawd a dwy chwaer), brawd ym Mlaenwaunuchaf, a brawd yn y weinidogaeth (Y Parch. J. E. Jenkins, Ainsworth). Heblaw yr uchod, gadawodd dair merch mewn galar dwys ar ei hol. Collodd ei phriod tua chwe blynodd yn ol ; a chladdwyd ei gweddillion yn ymyl yr eiddo ef ym mynwent Capelygroes y Sadwrn canlynol, pryd y daeth nifer luosog ynghyd—yn y ty cyn cychwyn ac yn y capel—i dalu iddi'r gymwynas olaf. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. J. H. Davies, ficer Silian, a D. Jones, Bethel ; darllenwyd yn y capel gan y Parch. L. Williams. Pregethwyd gan D.Evans, gweinidog y lle, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr.

NODION YR EGLWYSI.

Ar awgrym Mr. T. G. Thomas yn "YMOFYNNYDD" Ebrill, ysgrifennaf awgrymiadau am waith yr Eglwys ym Mrondeifi a'r defnydd a wneir o'r Ysgoldy.

Yn ystod y gaeaf bu Cymdeithas y Bobl ieuainc yn cyfarfod yma unwaith yr wythnos er dysgu siarad a dadleu'n gyhoeddus a chredaf y buasai'n syndod i lawer eu clywed. Bu yma ddarlithwyr fel y Parch. Herbert Morgan, M.A., Aberystwyth; Y Parch. Geo. Eyre Evans; W. S. Jones, M.A., M.Sc.; Dr. Albert Evans a Mr. Gwynn Thomas, B.A. yn agor meddwl y do ieuainc ac yr oedd yma gynulliadau da bob tro. Unwaith bob bythefnos yr oedd Cynghrair y benywod yma yn gweithio blodau a gwaith cansen, ac y maent wedi treulio tymor diddorol nes ennyn awydd am dymor arall. Bu'r gobeithlu neu'r Dosbarth Beiblaidd yma unwaith yr wythnos a chafwyd tymor adeiladol a dweyd y lleiaf. Yn ystod y misoedd diweddaf bu yma baratoi gogyfer ag Eisteddfod y Plant a chafwyd yma rhyw ddau ddwsin o blant yn dysgu adrodd a chanu a thystiai'r beirniad yn yr Eisteddfod fod yna dalentau disglair dros ben.

Yn ddiweddar sefydlwyd yma neu fe adgyfodwyd Cwrdd Paratoad fely'i gelwir gan lawer, a thystia pobun fod yr awr dawel honno ar noswaith waith yn iechyd i ben a chalon.

Bu bri mawr unwaith ar y Laymen's League. Ni wn i mo'i hanes yn unlle arall ond gwn ei bod wedi gwneuthur byd o les ym Mrondeifi. Ar hwyr Sul bob mis, y mae yma gyfarfod y Bobl ieuainc fel y'i gelwir ac apwyntir dau i ofalu am dano. Y mae un yn darllain, arall yn gweddio, arall yn darllain papur, ereill yn canu ac adrodd a chredaf fod gwell graen ar y cyfarfod hwn nag odid un Cyfarfod arall. Nid oes brinder talent yma ac y mae Cyfraith y Mediaid a'r Persiaid yn gweithredu. Y mae pob un yn awyddus i wneuthur ei ran a hynny o galon. Ni chaniata gofod ond awgrymu gan obeithio fod pob eglwys arall wedi danfon. Y mae Caeronnen yn rhy brysur er caei y Capel newydd yn barod ac nid yw'r nifer i fyny ond y maent yn uno a'r plwyf er treulio oriau'r gaeaf yn ddefnyddiol.

Y GYMANFA GERDDOROL.—Dymunir adgofio holl gantorion yr Undeb y bydd y Gymanfa yn cael ei chynnal yn Soar, Llanbedr (trwy ganiatad caredig yr eglwys) dydd Llun, Mehefin 14. Gwnaed pawb ymdrech i fod yn bresennol yng nghyfarfod y bore fel y gallo y plant gael pob cynorthwy a chwareu teg. Hefyd gofaled pawb o'r cantorion sicrhau tocyn mynediad i'r galeri cyn y dydd yn eu gwahanol eglwysi. —YSG.

CAPELYGROES.—Nos Fercher, Mawrth 2/ain, dug y Dosbarth gwnio eu tymor i derfyn trwy wledd o de a chwrdd adloniadol. Dechreuwyd yfed te tua saith o'r gloch, a pharhawyd hyd tua naw. Ar ol hynny caed cwrdd byr o adrodd a chanu. Treuliwyd noson ddifyr ac adeiladol iawn, pawb ar eu goreu. Y mae diolch yn ddyledus i bawb a fu ag unrhyw ran yn y gwaith. Pe dechreuid eu henwi ai'r adroddiad yn rhy hir.

CWM.—Cynhaliodd yr eglwys hon Wyl De prynhawn Gwener, Ebrill 9. Yr oedd tymor Dosbarth y Bonedd-igesau yn terfynu yr adeg hon, a gwahoddwyd aelodau y dosbarth hwn i gyfranogi o'r wledd ynghyd a llawer ereill. Yr oedd y darpariaethau yn helaeth ac amrywiol, a mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod adloniadol a chystadleuol. Y cadeirydd apwyntiedig oedd Major D. Hedog Jones, M.A., Caerau. Methodd efe fod yn bresennol, a llanwyd ei le gan Mr. James Williams, Brynawel. Arweiniwyd gan y Gweinidog. Y Beirniaid oeddynt: Cerddoriaeth, Mr. D.Davies, Sychdy, Pantdefaid; Celfyddyd, Miss Jones, Pantstreimon, Llandysul. Y

Cyfeilyddesau oedd Miss Davies, Maesllwyd, a Miss Davies, Wessyn, Llandysul. Y swyddogion oedd: Cadeirydd y Pwyllgor, Mr. D. Richards, Pengraig Shop; Ysgrifennydd, Mr. J. Evans, Y Felin, Drefach; Y Trysorydd, Mr. D. J. Thomas, Ty-'ngrugisaf. Yn y rhan gyntaf o'r cyfarfod cafwyd Cantata gan y Plant, o dan arweiniad Miss Davies, Maesllwyd, ac aethant drwy eu gwaith mewn modd rhagorol. Ar ddiwedd y rhan hon o'r cyfarfod awd at y gorchwyl o anrhegu Miss Jones, Pantstreimon a Silver Biscuit Barrel fel arwydd o werthfawrogiad aelodau Dosbarth y Boneddigesau o'i gwasanaeth fel athrawes iddynt yn ystod tymor y gaeaf. Cyflwynwyd yr anrheg gan Mrs. Williams, Brynawel a gwnaeth araith bwrpasol iawn. Diolchodd Miss Jones, a dug dystiolaeth uchel i allu aelodau y Dosbarth i gymryd eu haddysgu ac i'r cynydd yr oeddynt wedi wneuthur yn ystod y tymor mewn gwaith *cane*. Swyddogion y Dosbarth hwn oedd: Cadeirydd, Mrs. Jones, Caerau; Trysorydd, Mrs. Richards, Pengraig Shop; Ysgrifenyddes, Miss Davies, Maesllwyd. Yn yr ail ran o'r cyfarfod caed cystadleuaethau mewn gwaith *cane* yn gyfyngedig i aelodau Dosbarth y lle.

TRECYNON.—Darlith Gyngherdd yn Nhrecynon, o dan nawdd yr Hen Dy Cwrdd. Bu llawer tro ar fyd er pan fu Tanymarian, Ieuan Gwyllt ac ereill yn dysgu cerddoriaeth i'r Cymry trwy ddarlithio ac arwain Cymanfaoedd. Pwysleisient hwy gerddoriaeth leisiol a chrefyddol yn bennaf. Erbyn heddiw mae'r llanw wedi troi at gerddoriaeth offerynol, ac aml yw'r darlithiau gan ddynion mawr fel Syr Walford Davies a'r Dr. Vaughan Thomas ac ereill yn dangos gogoniant cerddoriaeth offerynol a'r pwys i ni ei hastudio'n fanwl. Amheuthun i drigolion Trecynon oedd gwrando darlith dda ar hen ffurf o gerddoriaeth leisiol unwaith eto. Nos Iau, Mawrth 11, cyfarfu tyrfa yn Neuadd Trecynon i wrando darlith ar "Hen Garolau." Y darlithydd oedd Miss Mary James, Mus. Bac., (Wales), o Bontypridd, yn cael ei chynorthwyo gan gor o tuag 16 mewn rhif, a chyfeiliwyd wrth y piano gan Miss Cisely Jones, L.R.A.M. Cadeiriwyd gan y Cynghorwr D. Tysul Davies. Wrth gyflwyno'r darlithydd dywedai'r cadeirydd fod Miss James yn hannu o deulu cerddorol a fu yn llafurus iawn gyda chaniadaeth y cysegr yn Nhrecynon flynyddoedd yn ol. Un o ddisgynyddion Abraham James, hen arweinydd y gân yng Ngharmel (M.C.), yw Miss James, ac un yn dwyn mawr sel dros ganiadaeth ym Mhontypridd. Boneddiges ieuanc yw hi sydd yn gwybod sut i arwain canu, a sut i siarad yn Gymraeg a Saesneg yn ddiymhongar. Soniodd am wahanol fathau ar Garolau, megis Carol Nadolig, Carol y Pasc, a Charol yr Esgyniad, a Charolau ar ffurf o storiau, a chanodd y cor engreifftiau o bob math ar Garol o dan ei harweiniad hi. Roedd yn eglur fod y maes yn berffaith gyfarwydd iddi, a melys oedd gwrando'r cor bach yn canu mor ddidrafferth y gwahanol rifynnau. Aeth a ni yn ol am ganrifoedd er dangos i ni esiamplau o felodi yn yr hen foddau Groegaidd gan esbonio'r cwbl. Swniai'r cwbl fel pe bai'n ddieithr, ond yn felodaidd bob amser, yn felys a'r rhanweithiadaeth yn ddiddorol. Amheuthun oedd gwrando eto ar gor bach yn canu darnau bach, a'r cwbl yn eglur a phert, oblegid yr ydym yn byw heddiw ym myd y pethau mawr: yr opera a'r oratorio, a'r ddrama, ac anfynych y clywir dim tebig i ran-gan neu "glee." Credaf y clywir rhagor am Miss Mary James, a disgwyliwn lawer oddiwrthi. Dywedai Mr. Botting, Cyfarwyddwr Addysg Aberdar, wrth ddiolch fod y ddarlith yn dangos ol llafur ac ymchwil manwl. Eiliwyd gan y Parch. E. R. Dennis, a dywedai fod y cwbl yn rhad ac am ddim i gynorthwyo trysorfa'r Hen Dy Cwrdd. Un o'r cyfarfodydd goreu y bum ynddo er ys llawer dydd oedd hwn.—J. R. Evans, G. a L., Trecynon.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nos Sadwrn, Ebrill 24, dan nawdd cor y lle, cynhaliwyd gwyl de a chyngerdd, i roesawu ac adlonni y cantorion fu hyfwyned a chynorthwyo'r cor i ymarfer a pherformio

"Judas Maccabaeus," a'r "Messiah," (1925—1926), ym Mhontardawe. Bu'r wledd dymorol o'r fath oreu a dilynwyd hi gan ei thebig yn feddyliol. Gwnaed rhaglen fer a blasus, ac aethpwyd drwyddi'n llwyddianus i'r diwedd. Diolchir i'r chwiorydd a'r brodyr a roes yr help gofynnol i ddwyn y llafur i derfyn boddhaol. Llywyddwyd, a chyfeiliwyd gan Mri. John ac Isaac E. Hopkin, Brynderw. Eto'n yr un lle nos Sul, Mai2, cafwyd pen chwarter yr Ysgol Sul, dan arweiniad Thomas Mainwaring, Heolnewydd, a chyfeiliwyd gan a enwyd uchod a Mr. William John Bowen, Rhianfa. Da gennym ddweyd i ni gael rhaglen ragorol, ond braidd yn faith. Aeth y plant drwy'r gwaith yn benigamp, yn yr adrodd a'r canu; a gwelwyd y rhai mewn oed ar eu goreu hefyd. Fel yr awgrymir uchod, tuedda'r rhaglen i fynd yn ormod i un cyfarfod, ac felly, os y penderfynnir cael dau gwrdd rhaid fydd chwilio meysydd ereill, os na cheir diwygiad ym mynychiad cyfarfod y plant am ddau. Mae lle i gredu y cedwir ymaith o'r cyfarfod dau, gan mai plant a gymerth ran ynddo. Beth bynnag am hynny, ni a hyderwn y gwna holl aelodau'r eglwys a'r Ysgol Sul roddi'r gefnogaeth sy'n ddyledus i'r ymdrech ddangosir i ddal i fyny safon a thalent pen chwarter y lle.

CAPEL CAERONNEN.

(1654. 1747. 1846. 1926.)

—CYNHELIR—

Cyfarfodydd Pregethu

YN Y CAPEL UCHOD (ar ol ei adnewyddu)

DDYDD MERCHER, MEHEFIN 23ain, 1926.

Prynhawn Mercher, am 2. Pregeth: Y Parch. R. C. Jones (Y Cyn-weinidog). Papur: "Hanes Ymneillduaeth yng Nghellan," gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

Hwyr Mercher, am 6. Dwy Bregeth gan ddau o blant Caeronnen—Y Parchn. J. D. Jones, B.A., Pontypridd, a D. Cellan Evans, Northampton.

Estynnir gwahoddiad cynnes i bob un a fedr fod yn bresennol, yn Weinidogion a lleygwyr.

T. O. WILLIAMS (Y Gweinidog).

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,

CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.

For Suits and Costumes to order from 50s.

—Mourning at Shortest Notice.—

... Satisfaction Guaranteed. ...



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland ; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland ; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.